

P  
R  
O  
S  
B  
E  
C  
T  
W  
S

# Ysgol Gymraeg Y Login Fach

2022-2023



Gallaf Iwyddo ond i mi roi cynnig arni!





Heol Roseland / Roseland Road,  
Waunarlwydd,  
Abertawe / Swansea  
SA5 4ST

Ffôn	01792 874399	Telephone
Ffôn	01792 875385	Telephone
E-bost	<a href="mailto:YGG.Loginfach@swansea-edunet.gov.uk">YGG.Loginfach@swansea-edunet.gov.uk</a>	E-mail
Gwefan	<a href="http://www.yloginfach.co.uk">www.yloginfach.co.uk</a>	Website
Trydar	@LoginFach	Twitter
Pennaeth	Mrs Katrin Parkhouse	Headteacher
Awdurdod Addysg	Dinas a Sir Abertawe City & County of Swansea	Education Authority
Cyfarwyddwr Addysg	Mrs Helen Morgan-Rees	Director of Education
Cadeirydd y Corff Llywodraethol	Mrs Susan Evans	Chair of Governing Body

## CROESO GAN Y PENNAETH

Mae'r llyfrynn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ysgol ac o'i ddarllen fe ddylech gael syniad da o'r hyn y ceisiwn ei gyflawni yn yr ysgol. Un o'n prif amcanion yw sicrhau fod pob plentyn yn mwynhau'r profiad o ddysgu a gweithiwn yn galed i sicrhau amgylchedd diogel, lliwgar a chyffrous i bob plentyn.

Mae Ysgol Y Login Fach yn lle hapus. Mae'r athrawon a'r staff cynnal yn gweithio'n ddiwyd a diflino. Mae ganddynt oll berthynas dda â'r plant ac ymfalchiwn yn yr addysg eang a chytbwys a ddarparwn a'r berthynas effeithiol sydd rhwng yr ysgol a'r cartref, a'r gymuned.

Lleolir Ysgol Gymraeg Y Login Fach ym mhentref Waunarlwydd ond mae'r dalgylch yn ymestyn rhai milltiroedd o'r pentref.

Daw dros 95% o'n disgylion o gartrefi lle nad oes dim Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn meistrol i'r Gymraeg mewn byr o dro, gan fod yn gwbl ddwyieithog yn ein gadael yn 11 oed.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am yr ysgol, neu os hoffech ymweld â ni, yna codwch y ffôn i wneud trefniadau.

## WELCOME

*This handbook contains information about the school and reading it should give you an idea of what we're all about. One of our aims is to ensure that every child enjoys their time at school and we strive to provide a safe, colourful and exciting environment.*

*Ysgol Y Login Fach is a happy school. The teachers and support staff are all hardworking and conscientious. They all have a wonderful relationship with the pupils and we pride ourselves on the broad, balanced and full curriculum we offer and the effective working relationship with parents and the local community.*

*Ysgol Y Login Fach is situated in the village of Waunarlwydd, but the catchment area extends some miles from the village.*

*Approximately 95% of our pupils come from homes where no Welsh is spoken. The children acquire Welsh very quickly and are completely bilingual before they leave us at 11 years of age.*

*Should you wish for any further information about the school or if you would like to visit us, then please telephone to make the necessary arrangements.*

**Gallaf lwyddo, ond i mi roi cynnig arni!**

## STAFF YR YSGOL 2022 - 2023

Pennaeth/Headteacher : Mrs Katrin Parkhouse

### Athrawon/Teachers :

Meithrin/Nursery : Mrs. Eleri Jones

Derbyn / Reception : Mrs Catrin Jones

Bl 1 /Year 1 : Miss. Siân Howells

Bl 2 / Year 2 : Mrs. Eiri Evans-Jones

Bl 3/Year 3 : Mrs. Siân Morgan-Curran

Bl 4/Year 4 : Mrs. Rhian Davies (Dirprwy)

Bl 5 /Year 5: Mr Eirian Rees

Bl 6 /Year 6 : Mr. Aron Jones a Miss Angharad Thomas

CPA/PPA Mrs Denise Whitty/Mrs Eleri Jones

### Cymorth dysgu / Support assistants

Miss J. Lewis

Mrs. R. Lynch

Miss Julia Evans

Miss L. Badcock

Mrs. E. Sanderson

Mrs. D Chapman

Mrs. M. Vyse

Mrs. E. Howells

Mrs.A. Rees-Sambrook

Miss. S. Godfrey

Mrs. J. Arnold

Mrs. S. Davies

Mrs. E. Sanderson

Miss Julia Evans

Mrs. D Chapman

Mrs. M. Vyse

Miss J. Lewis

Mrs. R. Lynch

Miss L. Badcock

Mrs. E. Howells

Mrs. C. Jones

Mrs. J. Thomas

Mr. D. Marsh

### Math o Ysgol

Ysgol Gynradd Gymraeg 3-11 oed

### Type of school

Designated Welsh Primary  
3-11 years of age

Glanhawyr / Cleaners

Gofalydd /Caretaker

## POLISI IAITH

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a chymhellir y plant i ddefnyddio'r iaith drwy'r amser.

Mae Cymraeg yn bwnc craidd, ac yn gyfrwng dysgu ym mhob agwedd o'r cwricwlwm, ar wahân i'r Saesneg.

## TREFN YR YSGOL

Mae uned Cyfnod Sylfaen gan yr ysgol i'r dosbarthiadau Meithrin i flwyddyn 2. Trefnir y dosbarthiadau fesul blwyddyn ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 sef blynnyddoedd 3 i 6.

## NODAU YSGOL GYMRAEG Y LOGIN FACH

Nod yr ysgol yw creu awyrgylch gynnes a chefnogol,

- Ile y caiff pob plentyn ei barchu a'i gydnabod fel unigolyn.
- Ile y gall pob plentyn deimlo'n ddiogel o fewn awyrgylch gofalgar.
- Ile y gall pob plentyn deimlo ei fod yn "perthyn".
- Ile y gall pob disgybl gyrraedd ei botensial llawn, yn academaidd ac yn allgyrsiol.
- Ile y caiff pob disgybl gyfartal, heb wahaniaethu ar sail rhyw, hil na chrefydd.
- Ile y gall pob disgybl fwynhau awyrgylch Gymraeg a Chymreig a lle y disgwylir i bob plentyn ddod yn gwbl ddwyieithog.
- Ile y megir ymagweddau positif a chadarnhaol tuag at ddysgu.
- Ile y datblygir hunandisgyblaeth.
- Ile yr anogir pob plentyn i fod yn unigolyn cyfrifol, gofalgar.
- Ile y datblygir parch at eraill, a sensitfrwydd at anghenion eraill o fewn a thu allan i'r Ysgol.
- Ile y darperir ar gyfer y disgyblion yn academaidd, emosional, diwylliannol, corfforol, ysbrydol a moesol.

## CYSWLLT Y CARTREF A'R YSGOL

Mae cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng yr ysgol â'r cartref yn hanfodol i ddatblygiad a lles pob plentyn. Gall rhieni gysylltu â'r ysgol unrhyw adeg i drafod gofidiau neu i wneud apwyntiad i siarad â'r athro dosbarth neu'r Pennaeth.

Cyflwynir gwybodaeth i bob rhiant o'r hyn y bydd ei b/phlentyr yn ei wneud ym mhob dosbarth yn ystod y flwyddyn. Danfonir calendar o weithgareddau a digwyddiadau i bob cartref.

Ystyriwn ddatblygiad addysgiadol y plentyn *yn broses a rennir rhwng y teulu a'r ysgol*.

Cofiwch ein hysbysu yn syth o newid cyfeiriad neu rif ffôn, yn ogystal â rhifau cysylltu mewn argyfwng.

***Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)***

## THE LANGUAGE POLICY

Welsh is the official language of the school and all pupils are encouraged to use the language at all times.

Welsh is a core subject, and is the medium of instruction for all areas of the curriculum, apart from English

## SCHOOL ORGANISATION

The school has a Foundation Phase unit catering for the Nursery to Year 2. The classes are organised into single year groups in Key Stage 2- years 3 to 6.

## THE AIMS OF YSGOL GYMRAEG Y LOGIN FACH

*The aim of the school is to create a warm and positive atmosphere:*

- *where each pupil is respected and recognised as an individual.*
- *where every pupil can feel secure in a caring environment.*
- *where each pupil can enjoy a sense of "belonging".*
- *where each pupil achieves his full potential - academically and in extra-curricular activities.*
- *where equal opportunity exists for each pupil, without discriminating on the basis of sex, race or religion.*
- *where each pupil can enjoy a wholly Welsh atmosphere and where each child is expected to become fully bilingual.*
- *where positive attitudes are nurtured towards learning.*
- *where self discipline is developed.*
- *where every pupil is encouraged to be a responsible, caring individual.*
- *where respect for others and a sensitivity to the needs of others is promoted within and beyond the school.*
- *where the pupils are provided for academically, emotionally, culturally, physically, spiritually and morally.*

## HOME SCHOOL LINKS

Open and effective communication between the school and the home is essential for the development and welfare of every pupil. Parents can contact the school to make an appointment to see the class teacher or Head Teacher. Every parent is sent information noting what his/her child will be doing during the academic year. A calendar of events and activities is also sent to every home.

We consider the educational development of the child to be a process shared between the family and the school.

Remember to inform us immediately of any changes of address or telephone numbers, together with emergency contact numbers.

## GOFAL BUGEILIOU

Mae'r athrawon dosbarth i gyd yn ymneud â gofal bugeilios y disgyblion, gyda'r Pennaeth â chyfrifoldeb eithaf. Y Pennaeth yw'r person a enwir sy'n gyfrifol am y plant dan ofal yn yr ysgol a sydd yn sicrhau mewn ymgynghoriad a'r athro dosbarth bod cymorth priodol mewn lle. Pan fydd disgybl yn teimlo'n sâl, fe wneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni er mwyn anfon y disgybl adref. Pan fydd disgybl yn cael damwain, gweinyddir cymorth cyntaf gan yr athro benodedig, neu bwy bynnag fydd ar ddyletswydd ar y pryd. Os bydd angen sylw meddygol pellach fe wneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni er mwyn anfon y disgybl adref.

## GWARCHOD A DIOGELWCH YN YR YSGOL.

Mae athrawon a staff cynorthwyo ar ddyletswydd o 08.40 yn y bore ac yn ystod cyfnodau egwyl y bore a'r prynhawn. Yn ystod yr awr ginio bydd y plant o dan ofal staff cynorthwyo. Mae'r ysgol wedi gosod cloeon ar y drysau allanol i gyd, ac ni all neb gael mynediad heb ganiatâd. Mae pob ystafell â larwm iddi ac mae camerâu CCTV o gwmpas y tu allan i'r ysgol.

## CYFLE CYFARTAL

Credwn yn gryf yn ein hysgol ni fod pob plentyn, beth bynnag ei hil, ei genedl neu allu, yn haeddu cyfle cyfartal. Trwy gydol pob gweithgaredd yn yr Ysgol a'r cwricwlwm, bydd gan y plentyn gyfle i gymryd rhan ac wrth wneud hynny, i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau personol a'u boddhad. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithgareddau a thasgau yn ddiddorol i fechdyn a merched. Dylai disgyblion sydd ag anawsterau arbennig gael eu hannog i gyflawni gymaint â phosibl o'u hastudiaethau. Rhaid darparu'n hyblyg ac addas er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn.

## DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Byddwn yn ymdrechu i beidio gwahaniaethu ar sail anabledd. Byddwn yn trin pob plentyn yn gyfartal ac yn defnyddio'r un polisi derbyn ar gyfer pawb. Byddwn yn annog disgyblion a staff i drin pawb yn gyfartal yn unol â'n Polisi Cyfle Cyfartal. Mae adeilad yr ysgol yn addas ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol gan y gellid teithio i bob rhan heb ddefnyddio grisiau, ac mae ty bach addas gennym, ac mae Cynllun Hygyrchedd gan yr ysgol.

## ADDYSG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Trwy gynllunio cwricwlwm gwahaniaethol, sicrhewn bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad at weithgareddau sydd yn addas at eu gallu ac sydd yn caniatau pob plentyn i gyrraedd eu llawn potensial. Mae asesu ac arsywli parhaus yn galluogi'r athrawon i gynllunio gweithgareddau a strategaethau sydd yn addas ar gyfer pob plentyn. Ein bwriad pob tro yw adnabod ein plant yn dda er mwyn gallu cynllunio ar gyfer anghenion pob plentyn, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Weithiau, bydd angen cymorth ychwanegol neu wahanol ar rai plant. Gall hyn fod ar nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys defnyddio strategaethau penodol, darparu cymorth ychwanegol neu geisio am gyngor gan asiantaethau arbenigol. Bydd staff yr ysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda phlant a rhieni wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cynnwys rhieni a phlant yn penderfyniadau a wneir. Gwelwn hwn fel broses cytun. Bydd staff y dosbarth yn gweithio'n agos iawn â chydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sef Mrs Denise Whitty, wrth adnabod anghenion, monitro a chynllunio darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Credwn mai dim ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gwarcheidwaid y bydd pob disgybl yn cyrraedd ei wir botensial. Mae cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r rhieni/gwarcheidwaid yn holl bwysig er lles y disgyblion. Os bydd gan y rhieni a gwarcheidwaid bryderon am eu plant gofynnwn iddynt gysylltu â'r athrawon dosbarth neu'r Pennaeth yn syth. Dim ond trwy drafodaeth a chydweithio y gellir datrys problemau. Yn yr un modd, os yw'r ysgol yn poeni am unrhyw ddisgybl byddwn yn cysylltu'n syth â'r rhieni/gwarcheidwaid. Er mwyn sicrhau bod y rhieni a gwarcheidwaid yn cael digon o amser i drafod unrhyw broblem gyda'r athrawon unigol gofynnwn iddynt ffonio'r swyddfa'r ysgol yn y lle cyntaf. Gallwn wedyn drefnu amser sy'n gyfleus i bawb er mwyn cynnal trafodaeth effeithiol.

## ENGHREIFFTAU O WEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Rôl yr Ysgol	Rôl y Rhieni/Gwarcheidwaid
• Anfon cylchlythyrau yn rheolaidd er mwyn trosglwyddo gwybodaeth	• Edrych ar App yr ysgol i weld a oes llythyr
• Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol	• Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am hapusrwydd neu ddiogelwch eich plentyn yn yr ysgol/cartref
• Sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd boddhaol	• Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am cynnydd eich plentyn
• Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei annog i wneud ffrindiau	• Gwahodd ffrindiau eich plentyn adref i de neu i chwarae
• Cysylltu â'r rhieni a'r gwarcheidwaid os oes unrhyw aelod o'r staff yn poeni am ddatblygiad cyffredinol disgybl	• Cysylltu â'r ysgol os ydych yn poeni am ddatblygiad cyffredinol eich plentyn
• Gwrando ar bryderon unrhyw ddisgybl ac ymateb iddynt	• Gwrando ar bryderon eich plentyn ac ymateb iddynt

## PASTORAL CARE

Pastoral care of the pupils is the concern of all class teachers with the Headteacher having overall responsibility. The named person responsible for Looked After Children is the Headteacher who ensures in consultation with the class teacher that appropriate support is identified. When a pupil is taken ill, every effort is made to contact the parents so that the pupil can be taken home.

When a pupil is involved in a minor accident, basic first-aid is administered by the designated first aid teacher or whoever is on duty. Should further medical attention be required, every effort will be made to contact the parents so that the pupil can be taken home.

## SUPERVISION AND SAFETY IN SCHOOL.

Teachers and support staff are on duty from 8.40 in the morning and during morning and afternoon breaks. During the dinner hour children are supervised by Supervisory Assistants. The school has fitted locks on all the external doors, and nobody can gain admission without permission. Every classroom is alarmed and there are CCTV cameras around the outside of the school.

## EQUAL OPPORTUNITIES

We strongly believe that every child whatever their gender, race, nationality or ability are treated equally. Throughout all the school's activities every child will have the opportunity to take part and through taking part to develop their knowledge, personal skills and pleasure. Every effort is made to ensure that activities and tasks are suitable for boys and girls. Children with special needs will be encouraged to accomplish as much as is possible of their work. Provision will be versatile in order that all pupils reach their potential.

## PUPILS WITH DISABILITIES

We will endeavour not to discriminate against any pupil with disabilities. They will be treated as all the other pupils and the same admission policy will prevail. Pupils and staff members will be encouraged to treat every pupil equally in line with our Equal Opportunities Policy. The school building is suitable for pupils with physical disabilities. It is possible to travel around the school without using stairs or steps, and we have one toilet for individuals with a disability, and the school has an accessibility plan.

## ADDITIONAL LEARNING NEEDS

The careful planning of a differentiated curriculum ensures that all pupils have access to activities which are suited to their ability and which allow all pupils to reach their full potential. Continuous assessment and observation enable our teachers to plan activities and strategies which are suitable for all children. Our aim at all times is to ensure that we know our children well so that we can plan for the needs of all children, including those recognised as having additional learning needs. At times, some pupils may need additional or different support. This may take many different forms, including using specific strategies, providing additional support or seeking the advice of specialist agencies. School staff will work closely with children and parents to plan provision for children with additional learning needs and will include parents and children in the decisions which are made. We very much see this as a joint process. Classroom staff will work closely with Mrs Denise Whitty, the school's additional learning needs coordinator (ALNCo), when identifying needs, monitoring and planning provision for children with additional learning needs.

## WORKING IN PARTNERSHIP

We believe that it is only through working in partnership with parents that each pupil can achieve his/her full potential. Cooperation between school and home is essential for the wellbeing of the pupils. If parents have any concerns about their child we ask that they contact the class teacher or Headteacher immediately. It is only through discussion and working together that we an attempt to solve problems. In the same light, if the school has concerns over a pupil we will contact the parents. In order to ensure that enough time may be given to any parent wishing to discuss a problem with the class teacher we ask that you contact the school office in the first instance. We can then arrange a mutually acceptable time for both in order to have a meaningful discussion.

## EXAMPLES OF WORKING IN PARTNERSHIP

School's role	Parents and Guardians role
• issuing regular newsletters providing information	• checking the school App regularly for correspondence
• ensuring that every pupil feels happy and safe in school	• informing the school if you have concerns about your child's happiness or safety in school/home
• ensuring that each pupil makes satisfactory progress	• informing the school if you have any concerns regarding your child's progress
• ensuring that each pupil is encouraged to make friends	• inviting your child's friends home for tea or to play
• contacting the parents if any member of staff has concerns over a pupil's general development	• contacting the school if you have any concerns over your child's general development
listening and responding to any concerns a pupil may have	• listening and responding to any concerns your child may have

## TECHNOLEG GWYBODAETH

Mae Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol ymhob dosbarth, amrywiaeth o gyfrifiaduron, cluniaduron, chrome books ac ipads ac erbyn hyn mae system wi-fi drwy'r ysgol i gyd.



## INFORMATION TECHNOLOGY

There is an Interactive White Board in each classroom, a variety of computers, laptops, chrome books and ipads and we have invested in a wi-fi system that can be used anywhere within the school.



## Gallaf Iwyddo, ond i mi roi cynnig arni!



### CRYNODEB O AMCANION EIN CWRICWLWM

Cynlluniwyd y cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol a gynigir i bob disgybl yn yr ysgol hon er mwyn:

- cwrdd â holl ofynion statudol y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- meithrin ymagweddau cadarnhaol ym mhob unigolyn, fel y gall addasu'n hwylus i syniadau a sefyllfaoedd newydd.
- hyrwyddo'r gallu i weithio'n annibynnol, yn ogystal â chydweithio mewn tîm, i ddatrys problemau, a phenderfynu ar ddulliau penodol o gyflawni tasgau.
- cymell pob unigolyn i gyrraedd ei lawn potensial a datblygu'r plentyn cyfan gan hybu'n arbennig y sgiliau sylfaenol megis meddwl, rhif, cyfathrebu a TGCh.
- hybu Cymreictod ac ehangu ymwybyddiaeth o dreftadaeth a diwylliant y genedl, ynghyd â dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a pharch tuag atynt.

### A SUMMARY OF THE SCHOOL'S CURRICULUM AIMs

The broad, balanced and relevant curriculum offered to every pupil of our school has been specifically constructed in order to:

- meet all the statutory requirements of the Foundation Phase and the National Curriculum.
- develop in each individual positive attitudes which will enable him/her to adapt to new ideas and situations.
- develop the ability to work independently and also as a member of a team to solve problems and to decide on specific ways of accomplishing tasks.
- motivate each individual to reach his/her full potential and develop the "whole child" promoting in particular the basic skills i.e. thinking, number, communication and ICT.
- promote Welshness and foster an awareness of the nation's heritage and culture, as well as an understanding of, and a respect towards other cultures.

**Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)**

## **ADDYSG GREFYDDOL**

Dysgir Addysg Grefyddol i bob plentyn yn yr Ysgol. Mae'r gwaith wedi ei integreiddio i thema'r tymor. Mae'r cynnwys yn seiliedig yn benodol ar Gristnogaeth ond cyflwynir crefyddau eraill fel rhan o'r cynllun gwaith. Seilir y gwasanaethau ar egwyddorion Cristnogol yn ogystal â bod yn gyfrwng gwerthfawr i ddatblygu datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgylion. Cynhelir gwasanaethau dosbarth gyda dosbarth cyfan yn cymryd rhan, yn rheolaidd. Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r gwasanaethau.

## **RELIGIOUS EDUCATION**

Religious Education is taught to every pupil in the school. The work is integrated into the term's theme. The content is based primarily on Christianity but other religions are introduced and studied as part of the scheme of work. School assembly is based on Christian principles as well as promoting spiritual, moral and social development of the pupils. Class assemblies, where a whole class takes part, are held regularly. Parents have the right to withdraw pupils from assemblies.

## **CWRICWLWM YR YSGOL**

Mae cwricwlwm yr ysgol i blant 3-7 oed yn seiliedig ar y dogfennau canlynol:

*Y Cyfnod Sylfaen*

*Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 – 19 oed yng Nghymru*

*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*

*Fframwaith Digidol*

Mae sgiliau a gwybodaeth plant yn cael eu cynllunio ar draws chwe maes dysgu sef:

1. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
2. Datblygiad Mathemategol
3. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd
4. Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
5. Datblygiad Corfforol
6. Datblygiad Creadigol

Mae cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2, plant 7 – 11 oed yn seiliedig ar y dogfennau canlynol:

*Cwricwlwm Cenedlaethol Diwygiedig 2008*

*Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 – 19 oed yng Nghymru*

*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*

*Fframwaith Digidol*

Ar draws y cyfnodau allweddol sicrheir parhad a dilyniant mewn datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif.

## **THE SCHOOL'S CURRICULUM**

The school's curriculum for the 3 – 7 year -olds is based on the following documents:

*The Foundation Phase*

*Skills Framework for 3- 19 year-olds in Wales*

*Literacy and Numeracy Framework*

Children's skills and knowledge are planned across the following six areas of learning:

1. Language, Literacy and Communication Skills
2. Mathematical Development
3. Personal and Social Development, Well-Being and Cultural Diversity
4. Knowledge and Understanding of the World
5. Physical Development
6. Creative Development

The school's Key Stage 2 curriculum for children from 7 – 11 yrs is based on the following documents:

*Revised National Curriculum 2008*

*Skills Framework for 3- 19 year-olds in Wales*

*Literacy and Numeracy Framework*

*Digital Framework*

Throughout the key stages there is a great emphasis on continuity and progression in developing thinking, communication, ICT and number skills.

## **ADDYSG RHYW**

Dysgir Addysg Rhyw yn unol â Chanllawiau'r Awdurdod Addysg Lleol a'r Llywodraeth. Cyflwynir addysg rhyw fel rhan integredig o waith yr ysgol, a'i gyflwyno fel rhan naturiol o fywyd yma. Y prif bwyslais yw cydberthnasau a bydd yn adlewyrchu anghenion ac oed y disgyblion wrth iddynt ddatblygu. Sicrheir eich caniatâd fel rhieni cyn y trafod. Mae hawl gan rieni dynnu eu plant o'r gwersi addysg rhyw, pe dymunant.

## **DISGYBLAETH YN YR YSGOL**

Cyfrifoldeb y Pennaeth ynghyd â'r staff cyfan yw disgyblaeth a gweithredu rheolau'r ysgol.

Defnyddir canmoliaeth a chlod fel elfennau allweddol wrth feithrin hunandisgyblaeth a datblygu ymagweddau positif.

Seilir rheolau'r ysgol ar yr egwyddorion o hunan-barch a pharch at eraill.

Cosbir plant drwy golli breintiau a gosod sancsiynau. Mewn achosion o gam-ymddwyn cyson neu reolaidd, fe wna'r Pennaeth drefniadau i gysylltu â'r rhieni.

## **ADDYSG GORFFOROL A CHWARAEON**

Rhaid i bob plentyn wneud Addysg Gorfforol a Chwaraeon oni dderbyniwn lythyr gan riant i'w esgusodi. Dylid gwisgo dillad ac esgidiau addas i wersi Addysg Gorfforol a diosg pob gemwaith. Rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn cael amrywiaeth eang o brofiadau addysg gorfforol, e.e. gwensiawnio - gwerin a chreadigol, gymnasteg, pêl rwyd, rownderi, criced, pêl droed, rygbi, tenis, athletau. Rydym yn ffodus i gael defnydd caeau chwarae, yn ogystal â neuadd addas. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff plant wersi nofio ym Mhwll Penyrheol.



## **POLISI GWAITH CARTREF**

Heb os ac oni bai mae ymyrraeth rhieni yn addysg eu plentyn o fudd mawr yn nhermau datblygiad ac ysgogiad ar gyfer dysgu. Mae eich mewnbwn fel athro-riant yn y cartref yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr ysgol. Mae'n anodd nodi'n fanwl maint, math ac amlder gwaith cartref a rhaid gwneud gwahaniaethau ar sail oed, gallu, anghenion a gofynion eraill ar amser plentyn. Felly mae hyblygrwydd yn hytrach nag anhyblygedd yn allweddol.

Gofynnwn i chi i annog ac i gefnogi eich plant gan glustnodi amser yn dyddiol i ddarllen gyda'ch plentyn. Rydym am eich annog i gynorthwyo eich plentyn wrth ddysgu sillafu a thablau lluosi, i wneud gwaith ymchwil ac i ddysgu darnau ar y cof yn ôl y gofyn.

Mae athrawon yn barod i osod gwaith cartref sy'n berthnasol pan fo plant yn absennol am gyfnodau hir oherwydd salwch. Ni osodir Gwaith penodol pan fydd plant yn mynd ar wyliau teulu.

## **SEX EDUCATION**

Sex Education is taught according to the Guidelines of the Local Education Authority and Government. Sex education is introduced as an integral part of a theme and as a natural process of life. The main emphasis is on relationships and will reflect the need and age of the pupils as they develop. Your permission is ensured before these discussions take place. Parents have the right to withdraw their pupils from sex education, if they wish.

## **SCHOOL DISCIPLINE**

The overall discipline and enforcing of school rules is the responsibility of the Headteacher and the whole staff.

Praise is seen as a key element in acquiring self-discipline and developing positive attitudes.

Rules are based upon the principles of self and mutual respect.

Children are admonished by the loss of privileges and implementing of sanctions. In cases of regular or continued misbehaviour, the Headteacher will arrange for parents to be contacted.

## **PHYSICAL EDUCATION AND GAMES**

All pupils must participate in P.E. and games except those excused by a letter from a parent. Suitable clothes and shoes should be worn for P.E. lessons and all jewellery removed. As a school we believe that it is very important that pupils experience a wide range of physical education activities, i.e. dancing - both folk and creative, gymnastics, netball, rounders, cricket, soccer, rugby, tennis, athletics. The School is fortunate to have the use of playing facilities, as well as a suitably equipped hall. At Key Stage 2, children have swimming lessons at Peny rheol Pool.



## **HOMEWORK POLICY**

Without question, parental involvement in their child's education is of a great benefit in terms of progress and motivation for learning. Your input in the role of parent-teacher at home is thus highly valued by the school. It is difficult to be definite about the kind of homework or prescriptive about the amount of time spent on it. Allowances have to be made for age, ability, needs and other demands on pupil's time and thus flexibility rather than rigidity is important.

We ask you to encourage and support your children and hope that you will set aside time on most evenings to enjoy 'a good read' with your children encouraging him/her to read and discuss with you. We would also encourage you to help your child with tables and spelling, research work and to learn a poem or piece of text.

In cases of long absences through illness, teachers are prepared to assist by setting meaningful homework and marking it. No specific work is set while pupils are on family holidays.

## C.R.A.

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rieni ac Athrawon gweithgar sydd â'r rôl bwysig yn cefnogi amcanion yr ysgol a chodi arian ychwanegol. Gobeithiwn y bydd pob rhiant yn cefnogi'r gymdeithas yn ei hymdrehchion i helpu'r ysgol a chreu cyswllt cryfach fyth rhwng yr ysgol a'r cartref.

## CLWB HWYL

Mae gwasanaeth gofalu am blant yn cael ei gynnig rhwng 3.20 a 5.30 o'r gloch. Bydd y plant yn cael eu goruchwylia a gweithgareddau addas yn cael eu paratoi ar eu cyfer. Am fwy o fanylion gellir cysylltu â Mr. Phil Liddington Hughes ar 07575 543 335.

## CERDDORIAETH

### GWERSI OFFERYNNOL

Mae gan yr ysgol athrawon offerynnol sy'n ymweld â'r ysgol yn wythnosol i ddysgu'r ffidl, offerynnau pres a'r delyn.

Cynhelir cyngherddau lle caiff pob disgybl y cyfle i berfformio.



### CYSWLLT Â GŴYR

Yn un ar ddeg oed mae'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gŵyr. Mae gan Ysgol Y Login Fach berthynas hapus a chlos gyda phob un o'r ysgolion sy'n bwydo Gŵyr ac Ysgol Gŵyr ei hun. Cynhelir nosweithiau agored a dyddiau cyflwyno yn Ysgol Gŵyr. Bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol uwchradd yn ystod blwyddyn ola'r plant yn yr ysgol. Mae'r plant yn mynd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog am 3 niwrnod fel rhan o'r pontio gyda Gŵyr.

### GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

Rhoddir llawer o bwyslais ar weithgareddau allgyrsiol gan holl staff yr ysgol. Anogir y plant o flwyddyn 1 i fyny i ymaelodi â mudiad Urdd Gobaith Cymru ac mae llawer yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd ac mewn cystadlaethau chwaraeon. Cynhelir clybiau amrywiol yn ystod y flwyddyn ar ôl ysgol o 3.30.-4.30y.p.



***Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)***

## P.T.A.

The school has an active P.T.A. which has a vital role in supporting the aims of the school and in raising additional funds. It is hoped that every parent will support the association in its efforts to help the school and create an even stronger link between the school and home.

## CLWB HWYL

An after-schoolsssss club is held at school to look after children between 3.20pm and 5.30.p.m. Children are supervised and suitable activities arranged for them. For further details contact Mr. Phil Liddington Hughes on 07575 543 335.

## MUSIC

### INSTRUMENTAL LESSONS

The School has visiting instrumental teachers who teach violin, brass instruments and the harp.

Concerts are held where each and every pupil is given the opportunity to perform.



### LINKS WITH GŴYR

Pupils transfer at the age of 11 to Ysgol Gyfun Gŵyr. Ysgol Y Login Fach enjoys a very happy and close relationship with all the Gŵyr feeder schools and with Gŵyr Comprehensive itself. At the end of the summer term pupils will spend induction days visiting Ysgol Gyfun Gŵyr. Year 6 children attend the Urdd Camp at Llangrannog for 3 days residential course as part of the induction to Ysgol Gyfun Gŵyr.

### EXTRA-CURRICULAR ACTIVITIES

A great emphasis is placed by all school staff on extra curricular activities. All pupils from Year 1 onwards are encouraged to become members of Urdd Gobaith Cymru, which is the Welsh League of Youth and many compete in the Urdd Eisteddfodau and various sporting activities. Various clubs are held weekly after school from 3.30 – 4.30p.m.



*Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)*

## POLISI DERBYN PLANT

Mae'r polisi'n cyd-redeg â pholisi'r Sir.

### Y Dosbarth Meithrin

Rydym yn derbyn plant i'n meithrin (rhan amser) yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Rydym yn cadw rhestr aros o blant ac rydym yn annog rhieni i roi enwau eu plentyn ar y rhestr hon.

### Y Dosbarth Derbyn

Cynigir lle yn ein Dosbarth Derbyn i blant sy'n byw yn y dalgylch. Os oes lle gellir derbyn plant o'r tu allan i'r dalgylch hefyd. Y Sir sy'n gyfrifol am hyn. Mae croeso i rieni sydd â diddordeb mewn anfon eu plant i'r ysgol i gysylltu â'r pennath, a fydd yn hapus i drefnu amser cyfleus i chwi ymweld â'r ysgol.

### ABSENOLDEB

Dylid hysbysu athrawon o unrhyw apwyntiad meddygol neu ddeintyddol sy'n golygu bod plentyn yn mynd i fod yn absennol o'r ysgol. Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol oherwydd afiechyd, mae'n angenrheidiol i roi galwad ffôn i'r ysgol ar y diwrnod 1af a'r 3ydd diwrnod i egluro hynny. Os na wnewch, ystyrir yr absenoldeb fel **absenoldeb heb ganiatâd**.

Mae Partneriaeth, ein consortiwm addysg rhanbarthol, yn argymhell yn gryf i benaethiaid a chyrff llywodraethol i beidio ag awdurdodi unrhyw absenoldebau oblegid gwyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff unrhyw absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, eu cofnodi fel rhai anawdurdodedig.

### MEDDYGINIAETH

Os oes rhaid i'ch plentyn gymryd meddyginaeth yn ystod y diwrnod ysgol, **gallwch alw yn bersonol yn swyddfa'r ysgol ar yr amser priodol i'w roi i'r plentyn**.

### CWYNION

Os bydd gennych unrhyw gŵyn cysylltwch â'r Pennaeth yn syth. Os na cheir boddhad digonol drwy wneud hyn gellir dilyn camau mwy ffurfiol. Ceir manylion llawn am sut i wneud cwyn swyddogol, ffurfiol yn Nogfen Polisi'r Sir ac mi fydd y Pennaeth yn fodlon egluro'r broses i chi.

### GWISG YSGOL

Mae'r wisg Ysgol swyddogol:-

Crys polo coch, crys chwys coch gyda logo'r ysgol, sgert/trowsus llwyd neu ddu ar gael gan:

J&S Products  
74 Heol Tycoch  
Sgeti, SA2 9EQ

**Dylid marcio neu labelu pob dilledyn** fel bod modd dod o hyd iddo o'i golli.



## OUR ADMISSION POLICY

The Admission Policy corresponds with that of the county.

### The Nursery Class

We accept children into our Nursery (part-time) following their third birthday. We keep a waiting list of pupils and we encourage parents to put their children's names on this list.

### The Reception Class

Pupils who live within our catchment area are offered a place in our reception class. If we have room we can accept pupils from outside the catchment area too. These arrangements are the county's responsibility. Parents who are interested in sending their child to the school are welcome to contact the headteacher, who will be happy, to arrange a convenient time for you to visit the school and ask any questions.

## ABSENCES

Class teachers should be informed of any medical or dental appointments which mean that a child will be absent from school. If a child is absent from school due to illness, a telephone call on the 1<sup>st</sup> and 3<sup>rd</sup> day, explaining the reason for his/her absence is essential. If this is not adhered to it is regarded as an **unauthorised absence**.

The decision was taken by Partnership, our regional education consortium, to strongly recommend to headteachers and governing bodies that they do not authorise any absences due to holidays during term times. This recommendation would mean that any absences that are due to pupils being taken on holiday during term time would be recorded as unauthorised.

## MEDICINE

If your child is required by a doctor, to take medicine during the school day, **you may call at the school office at the appropriate time to administer it.**

## COMPLAINTS

In the event of any complaint you should discuss the matter with the Headteacher. However, if a satisfactory result is not obtained, then an official procedure may be followed. Full details of this procedure may be obtained in the County Policy document, which the Headteacher will explain to you.

## SCHOOL UNIFORM

The school uniform consists of the following:-

Red polo shirt, red sweatshirt with the school logo on.

Black or grey skirt/trousers.

The official school uniform is available from:

J&S Products  
74 Tycoch Road  
Sketty, SA2 9EQ

**Articles of clothing should be labelled** so that in the event of an article being mislaid, it can be traced.



# HAWLIAU PLANT/ CHILDREN'S RIGHTS



Rydym yn falch iawn o  
gael y Wobr Aur Ysgol  
Hawliau Plant

We are proud to have received The Gold Award for Rights Respecting School



## **GWASANAETH IECHYD NYRS YSGOL**

Mae'r Gwasaneth Iechyd Nyrs Ysgol yn darparu addysg, cefnogaeth a chyngor i bob agwedd o iechyd a iechyd cyhoeddus ar gyfer plant oed ysgol a'r gymuned ehangach. Maent yn cydweithio ag ysgolion gan gynnig sesiynau dosbarth sydd wedi'u seilio ar ofynion cwricwlaidd. Mae Nyrsys Ysgol ar gael yn ogystal i drafod ac i rannu cyngor unigol lle bo hynny'n addas. Os hoffech gysylltu a'r Nyrs Ysgol, ffoniwch swyddfa'r ysgol neu Adran Nyrsys Ysgolion ar 01792-531248.

CINIO YSGOL

Coginir prydau cinio hyfryd yng nghegin yr ysgol. Y gost ar hyn o bryd yw £12.00 yr wythnos. Telir yn wythnosol drwy system ‘Squid’ sef cyfrif arlein. Gellid cael gwybodaeth am ginio rhad gan ysgrifenyddes yr ysgol. Caiff y plant a ddaw â brechdanau, eu bwyta yn y neuadd o dan oruchwyliaeth y pennaeth ynghyd â goruchwylwyr awr ginio

CODI TÂL

Er y gofynnwn am gyfraniadau tuag at gost ymweliadau addysgol, ni waherddir unrhyw blentyn am beidio â chyfrannu. Mae CRA yn cyfrannu at y costau. Cytunodd y Llywodraethwyr, yn dilyn proses o ymgynghori â rhieni, y dylid gwahodd cyfraniadau tuag at gost gwersi offerynnol.

## ADRODDIADAU A NOSWEITHIAU RHENI

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol, mae pob disgybl yn derbyn adroddiad ysgrifenedig. Cynhelir dwy noson i rieni yn flynyddol, un yn yr hydref ac un yn y gwanwyn. Gellid hefyd drefnu i drafod ac ymhelaethu ar gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig.



Diolch am ddarllen ein Prospectws.

*Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)*

## **SCHOOL HEALTH NURSE SERVICE**

The School Health Nurse Service provides education, support, advice and assistance in all issues related to health and public health for school aged children and the wider school community. They will work closely with school to provide evidence based sessions in the classroom in line with the PSE & SRE curriculum. School Nurses are also available to discuss and advise on a 1:1 basis if appropriate. If you wish to contact the School Nurse, speak to the school office or School Nurses Department on 01792-531248.

## **SCHOOL DINNERS**

Delicious dinners are prepared in the school kitchen. The cost at present is £12.00 per week. Pupils are asked to pay through 'Squid' online account.

Information regarding free school meals can be obtained from the school secretary. The pupils that bring packed lunches are allowed to eat in the school hall under the supervision of the headteacher and the mid-day supervisors.

## **CHARGING POLICY**

Although we ask for contributions towards the cost of educational visits, no child is excluded for not contributing. The PTA subsidises such visits. The Governors have agreed, following a process of consultation with parents, that we should ask for contributions towards the cost of instrumental lessons.

## **REPORTS AND PARENTS EVENINGS**

At the end of the academic year, each pupil will receive a full written report. Two parents' evenings are held annually, one in the autumn and one in the spring term. An opportunity can be arranged in the summer to discuss and elaborate on the content of the written report.



**Thank you for reading our Prospectus.**

## AMSERAU'R DYDD / SCHOOL HOURS

Mae'n bwysig bod y plant yn brydlon ar bob adeg. Rydym yn cydweithio â Swyddog Lles yr Awdurdod i sicrhau hyn. Mae'r athrawon yn gyfrifol am ofalu am y plant am ddeng munud cyn amser dechrau swyddogol a deng munud ar ddiwedd y dydd.

*It is important that children are punctual at all times. We co-operate with the Education Welfare Officer to ensure this. Teachers are responsible for children for 10 minutes before the official start to the school day and for 10 minutes at the end of the day ensuring that the children in their care are safe and happy*

Bore / Morning	8.50 y.b - 12.00 y.b.
Prynhawn / Afternoon	13.00 y.p. - 3.15 y.p. Cyfnod Sylfaen 3:20 BI3-6

## Tymhorau'r Ysgol a Dyddiadau'r Gwyliau ar gyfer y Flwyddyn Academaidd 2022/2023

Dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion 2022 / 2023

Tymor	Dechrau'r tymor		Gwyliau Hanner Tymor			Diwedd tymor	Diwrnodau
			Dechrau	Diwedd			
Hydref 2022	Dydd Llun 5 Medi	Dydd Gwener 28 Hydref	Dydd Llun 31 Hydref	Dydd Gwener 4 Tachwedd	Dydd Llun 7 Tachwedd	Dydd Gwener 23 Rhagfyr	75
Gwanwyn 2023	Dydd Llun 9 Ionawr	Dydd Gwener 17 Chwefror	Dydd Llun 20 Chwefror	Dydd Gwener 24 Chwefror	Dydd Llun 27 Chwefror	Dydd Gwener 31 Mawrth	55
Haf 2023	Dydd Llun 17 Ebrill	Dydd Gwener 26 Mai	Dydd Llun 29 Mai	Dydd Gwener 2 Mehefin	Dydd Llun 5 Mehefin	Dydd Llun 24 Gorffennaf	64
Total:							195


## School Terms and Holiday Dates 2022/2023 Academic Year

School term and holiday dates 2022 / 2023

Term	Term begins		Mid-term holiday begins	Mid-term holiday ends		Terms ends	Total days
Autumn 2022	Monday 5 September	Friday 28 October	Monday 31 October	Friday 4 November	Monday 7 November	Friday 23 December	75
Spring 2023	Monday 9 January	Friday 17 February	Monday 20 February	Friday 24 February	Monday 27 February	Friday 31 March	55
Summer 2023	Monday 17 April	Friday 26 May	Monday 29 May	Friday 2 June	Monday 5 June	Monday 24 July	65
Total							195

*Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)*

*Mae yna ethos cymunedol a chynhwysol amlwg drwy'r holl Ysgol (Estyn 2015)*



Heol Roseland,  
Waunarlwydd,  
Abertawe SA5 4ST

Ffôn / Tel 01792 - 874399

E-bost / Email - [YGG.Loginfach@swansea-edunet.gov.uk](mailto:YGG.Loginfach@swansea-edunet.gov.uk)

<http://www.yloginfach.co.uk>

 @LoginFach